

## ❖ MYFYRDOD 'PAN OEDD BUGEILIAID'

Cofleidiodd Diwygwyr Protestannaidd Prydain y gred Galfinaidd mai'r Salmau, llyfr emynau Gair Duw, oedd y cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer canu mawl yn yr eglwys, ac, am rai canrifoedd wedi hynny, mydryddiadau o'r salmau fu prif ddeunydd canu cynulleidfaol yr Eglwys Wladol a'r Hen Ymneilltuwyr yng Nghymru a Lloegr.

Yn 1696 cyhoeddwyd *A New Version of the Psalms of David*, mydryddiad o'r Salmau gan ddau Wyddel, Nahum Tate a Nicholas Brady, a awdurdodwyd gan y Brenin William III i'w ddefnyddio yng ngwasanaethau Eglwys Loegr. Nid esgymunwyd emynau yn llwyr o wasanaethau'r eglwys, a chynhwyswyd 16 emyn mewn atodiad i'r *New Version* a gyhoeddwyd yn 1700. Aeth 15 o'r rheini i e bargofiant llwyr. Ond nid felly'r llall, sef emyn Nadolig gan Tate yn dechrau 'While shepherds watched their flocks by night'.

Mydryddiad o ddarn o'r Ysgrhythur yw'r emyn hwn hefyd, mewn gwirionedd, sef hanes ymweliad yr angel â'r bugeiliaid yn Luc 2:8–14. Dyma fugeiliaid yn clywed am ddyfodiad y Bugail Mawr ei hun (Mathew 2:4–6; Ioan 10:11). Y tebyg yw nad bugeiliaid cyffredin mo'r rhain ychwaith, ond bugeiliaid y preiddiau a fagwyd gerllaw Bethlehem ar gyfer aberthau'r Deml chwe milltir i'r gogledd yn Jerwsalem. Dyma fugeiliaid ŵyn y Deml, felly, yn mynd i dalu gwrogaeth i'r Oen a fyddai'n cael ei arwain i'r lladdfa er eu mwyn (Eseia 53:7).

Lluniwyd y cyfieithiad Cymraeg isod gan D. Gwyn Jones, golygydd yr ensciclopedia i blant, *Chwilota*. Fe'i lluniwyd ar gyfer *Llyfr Gweddi a Mawl i Ysgolion*, casgliad a gyhoeddwyd dan nawdd pwyllgorau addysg siroedd Caernarfon, Meirionnydd a Cheredigion yn 1958, a chasgliad y bu ef yn un o'i olygyddion.

Pan oedd bugeiliaid gyda'u praidd  
Yn gorwedd ar y bryn,  
Daeth angel Duw o'r t'wyllwch du  
Fel golau disglair gwyn.

Wrth weld eu braw a'u dychryn hwy,  
'Nac ofnwch,' meddai ef,  
'Cans dwyn yr wyf lawenydd mawr –  
Newyddion da o'r nef.  
'Ym Methlem ganwyd Ceidwad dyn,  
Sef Crist yr Arglwydd Dduw,  
O dylwyth Dafydd Frenin gynt,  
I achub dynol-ryw.

'A dyma'r arwydd fydd i chwi:  
Cewch faban yn ei grud  
Mewn preseb llwm yn llety'r ych  
A'r gwellt amdano'n glyd!'

Yn sydyn gyda'r seraff roedd  
Llu mawr o engyl glân  
Yn llenwi'r nef mewn moliant pur  
I Dduw, ar lafar gân:

'Gogoniant i'r Goruchaf Dduw,  
Tangnefedd is y nef;  
I ddynion bydd ewylllys da  
Byth mwy, o'i eni Ef.'  
Nahum Tate, cyf. D. Gwyn Jones

**E. Wyn James**